# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2020

Amser: 08.45 - 12.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/6402

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru<br>Nicola Davies, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru<br>Steve Hughson, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru<br>Syr David Henshaw, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Clare Pillman, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br>Katy Orford (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor a chafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AS.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Sesiwn dystiolaeth: Cyfoeth Naturiol Cymru: effaith cyllideb atodol Llywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr David Henshaw a Clare Pillman, Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 3 COVID-19: Sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Aelodau yn holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'i swyddogion am Covid-19 a'i effaith ar y sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd, cyflenwi bwyd a lles anifeiliaid, ac ymateb ei hadran hyd yma i'r pandemig.

## 4 COVID-19: Parhau gyda sesiwn graffu Llywodraeth Cymru

4.1 Parhaodd yr Aelodau i holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'i swyddogion.

## 5 COVID-19:Sesiwn dystiolaeth: Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nicola Davies a Steve Hughson, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 6.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-21

### 6.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21

### 6.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - Reoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2018

### 6.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - Ailfeddwl am fwyd a diod yng Nghymru

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2, 3, 4 and 5

8.1Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitemau 2,3,4 a 5.

8.2 Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn graffu.

## Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.